

Rhif: WG41743



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Canllawiau gwella ysgolion

Fframwaith ar gyfer gwerthuso,
gwella ac atebolrwydd

Dyddiad cyhoeddi: 27 Ionawr 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 15 Mawrth 2021

Canllawiau gwella ysgolion

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ar ganllawiau gwella ysgolion drafft. Mae'r canllawiau hyn yn cynnig canllawiau anstatudol ar wella ysgolion ac yn cyflwyno'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, a'i weithrediad. Mae'r ddogfen yn cynnig canllaw i ysgolion a'r rhai sy'n eu cynorthwyo i ymwreiddio trefniadau gwella effeithiol gan weithredu'r cwricwlwm newydd a diwygiadau cysylltiedig.

Sut i ymateb

Ymgynghoriad electronig ysgrifenedig yw hwn. Mae cwestiynau i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen ymgynghori hon a gallwch gwblhau'r ffurflen ar-lein, lawrlwytho a chwblhau copi caled o'r ffurflen a'i phostio atom ni yn y cyfeiriad a ddarperir isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:
Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: Gwellaysgolion@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cefndir	2
Pam ydym ni'n cyflwyno'r canllawiau hyn?	3
Pa newidiadau y mae'r canllawiau yn eu cynnig?	4

Cyflwyniad

Lluniwyd yr ymgynghoriad hwn i geisio eich safbwyntiau ar y fframwaith arfaethedig ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd i ysgolion yng Nghymru, a gyflwynir yn y canllawiau gwella ysgolion anstatudol drafft.

Bydd cwricwlwm newydd ar gyfer ysgolion a lleoliadau a ariennir nas cynhelir yng Nghymru o fis Medi 2022. Yn ganolog i'r cwricwlwm newydd y mae'r pedwar diben, sy'n nodi'r dyheadau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Mae'r pedwar diben hyn, sy'n rhan o'r fframwaith statudol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, yn cynorthwyo dysgwyr yn benodol i ddod yn:

- gyfranwyr mentrus, creadigol;
- dysgwyr uchelgeisiol, galluog;
- unigolion iach, hyderus; a
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus.

Er mwyn i'r Cwricwlwm i Gymru fod yn llwyddiannus, mae'n hanfodol bod pob agwedd ar y system ysgolion yn cyd-fynd â'r cwricwlwm a'i egwyddorion sylfaenol ac yn eu cefnogi.

Nodwyd trefniadau gwerthuso ac atebolrwydd cadarn sy'n cefnogi system hunanwella fel un o amcanion galluogi allweddol y cwricwlwm newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu fframwaith newydd felly ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd mewn ysgolion sydd â'r nod o gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Nodir hwn yn y canllawiau gwella ysgolion.

Bwriedir hefyd i'r canllawiau ddisodli canllawiau Llywodraeth Cymru, *Cynlluniau Datblygu Ysgolion*, a oedd yn ategu Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Ysgolion (Cymru) 2014. Mae'r Rheoliadau yn dal i fod mewn grym, ac mae'r canllawiau gwella ysgolion drafft yn gosod eu gofynion yng nghyd-destun y fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.

Mae'r canllawiau yn anstatudol ar hyn o bryd, er mwyn rhoi amser i ysgolion ac eraill yn y system addysg i brofi'r dulliau newydd o ymdrin â gwelliant ac atebolrwydd ysgolion, a dechrau newid ac ymwreiddio arfer i gefnogi'r newid i'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022.

Cefndir

Ers cyhoeddi 'Cenhadaeth ein cenedl' yn 2017, bu consensws cryf bod angen i'r system gwerthuso, gwella ac atebolrwydd flaenrol newid, gan ei bod yn cymhell yr ymddygiadau anghywir. Trwy wneud hynny, roedd perygl y byddai'n atal gwirediad y cwricwlwm newydd.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymateb i rai o ganlyniadau negyddol na fwriadwyd ein trefniadau gwerthuso ac atebolrwydd blaenrol, a'r mesurau perfformiad cysylltiedig. Roedd y canlyniadau na fwriadwyd hyn yn cynnwys:

- dewis o'r cwricwlwm sy'n culhau yn y sectorau cynradd ac uwchradd;

- mae mesur cynhwysol Lefel 2 yn rhoi pwyslais gormodol ar TGAU y ffin C/D (ddim yn cydnabod cyflawniadau dysgwyr naill ai o dan nac uwchben y trothwy hwnnw);
- mae mesur cynhwysol Lefel 2 yn rhoi pwyslais gormodol ar ffin C/D TGAU (ddim yn cydnabod cyflawniadau dysgwyr o dan neu uwchben y trothwy hwnnw);
- y ffordd yr oedd meincnodi yn ysgogi cystadleuaeth rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol yn hytrach nag annog cydweithrediad; a
- llwyth gwaith mwy a diangen i athrawon ac eraill yn y system, heb yr effaith neu'r budd angenrheidiol i ddysgwyr.

Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru drefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd drafft i Gymru, yn ogystal â chymryd nifer o 'gamau galluogi' i bontio i system gwerthuso, gwella ac atebolrwydd newydd. Roedd y camau hyn yn cynnwys:

- Rhoi'r gorau i gyhoeddi data o asesiadau athrawon a phrofion cenedlaethol ar lefel ysgolion ac awdurdodau lleol fel mater o drefn, a'u defnyddio mewn mesurau perfformiad ysgolion, sydd wedi sicrhau uniondeb y diben y'u bwriadwyd ar ei gyfer;
- Gweithredu dangosyddion perfformiad Cyfnod Allweddol 4 dros dro er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhai o ganlyniadau na fwriadwyd mwyaf dybryd mesurau blaenorol, tra bod y trefniadau tymor hwy yn cael eu hystyried;
- Diwygiadau i ofynion pennu targedau Cyfnod Allweddol 4. Roedd hwn yn gam oddi wrth bwyslais anghymesur ar nifer fach o fesurau perfformiad i amrywiaeth ehangach o wybodaeth, sy'n crynhoi yn well yr holl brofiad dysgu, cynnydd dysgwyr a'n huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd, gan alluogi pob ysgol i gael ei hystyried yn ei chyd-destun ei hun.
- Newidiadau i Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ar gyfer awdurdodau lleol, gan gael gwared ar wybodaeth perfformiad cyfunol awdurdodau lleol. Mae hyn i osgoi'r perygl, trwy ganolbwyntio ar ddata cyfunol ar lefelau awdurdod lleol a rhanbarthol, bod ysgolion yn cael eu dwyn i gyfrif dim ond ar sail sut y mae eu data yn cymharu â'r cyfartaleddau hynny, gan roi ystyriaeth annigonol i'w data a'u cyd-destun ehangach.

Pam ydym ni'n cyflwyno'r canllawiau hyn?

Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd hwn yn ysgogi ymddygiadau a diwylliant sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Mae'r canllawiau hyn yn nodi disgwyliadau eglur felly o'r gwahanol gyrff yn y system ysgolion o ran gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, ochr yn ochr â gweledigaeth ar gyfer sut y dylai'r system yn ei chyfanrwydd weithredu, yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn rhan o'n hymateb i adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i Lywodraeth Cymru, '*Achieving the new curriculum for Wales*', a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, ac sy'n cyfrannu at 'Ddiweddariad Cenhadaeth ein cenedl'. Roedd adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn pwysleisio'r pwysigrwydd bod y fframwaith atebolrwydd yn cyd-fynd ag egwyddorion y cwricwlwm newydd. Roedd hefyd yn cyfeirio at ffyrdd y mae tybiaethau o'r system gategoreiddio genedlaethol wedi atal hyder ysgolion a hyd yn oed eu gallu i gymryd rhan mewn gwaith ymholi, arbrofi ac arloesi.

Pa newidiadau y mae'r canllawiau yn eu cynnig?

Mae'r canllawiau yn cynnig:

Cryfhau pwysigrwydd ac effeithiolrwydd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant gan ysgolion, sy'n manteisio ar amrywiaeth eang o dystiolaeth

Un egwyddor allweddol o'r dull gwerthuso a gwella yw mai hunanwerthusiadau a blaenoriaethau gwella ysgolion ddylai fod y man cychwyn ar gyfer gwaith gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Bydd perfformiad ysgol yn cael ei ystyried yn ei ystyr ehangaf, wrth i ysgolion gael eu gwerthuso yn eu cyd-destun eu hunain, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth eang o dystiolaeth, cynllunio gwelliant wedi'i deilwra a chymorth. Mae'r pedwar diben, cynnydd pob dysgwr a llesiant i gyd yn debygol o fod yn nodweddion pwysig o'r gwaith hwn. Dylai'r prosesau hunanwerthuso nodi meysydd o gryfder a blaenoriaethau ar gyfer gwella, sy'n cael eu tynnu ynghyd mewn un cynllun datblygu ysgol strategol. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol a fydd yn cynorthwyo ysgolion i wneud gwaith hunanwerthuso trwyadl sy'n seiliedig ar ymholi.

Gan adeiladu ar eu hunanwerthusiadau a'u cynlluniau datblygu eu hunain, bydd ysgolion yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gytuno ar y cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt i wella. Trwy eu hymgysylltiad ag ysgolion, bydd consortia rhanbarthol hefyd yn nodi lle mae gan ysgolion gryfderau a gallu i gydweithredu ag ysgolion eraill i'w cynorthwyo.

Gan gydnabod pwysigrwydd blaenoriaethau gwella a chynllun datblygu ysgol, dylai ysgolion gyhoeddi crynodeb o'u cynllun sy'n cynnwys blaenoriaethau, camau gweithredu, cerrig milltir a chymorth a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol, yn ogystal ag adroddiad ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn cynt.

Disodli'r system gategoreiddio genedlaethol gyda phroses gymorth debyg, dan arweiniad consortia rhanbarthol, nad yw'n gwneud cyhoeddi categorïau ysgolion yn ofynnol

Rydym yn cynnig rhoi terfyn ar gategoreiddio fel proses genedlaethol ffurfiol â chanlyniadau cyhoeddedig. Bydd diben craidd categorieiddio – pennu pa gymorth y mae ysgolion ei angen i wella – yn parhau, ond bydd categorieiddio ei hun yn cael ei ddisodli gan broses gymorth, dan arweiniad consortia rhanbarthol, lle mae consortia yn cytuno ag ysgolion ar y cymorth sydd ei angen arnynt i wella.

Mae'r canllawiau yn cynnig y dylai consortia rhanbarthol ystyried yr elfennau o ysgol sy'n 'Arweiniol', yn 'Gwella' neu 'Angen cymorth mwy dwys', yn dechrau o'u hunanwerthusiad. Bydd hyn yn helpu i hysbysu'r defnydd o'r broceru o gymorth i ysgolion mewn ffordd sy'n briodol i'w hanghenion ac yn hyblyg. Ni fyddai ysgolion yn derbyn categori cymorth sefydlog sy'n cael ei gyhoeddi. Fodd bynnag, dylid cynnwys y cymorth y byddant yn ei dderbyn yn y crynodeb cyhoeddedig o'u cynllun datblygu ysgol.

Cryfhau a chynnig eglurder am y gwahaniad a'r gwahaniaeth rhwng gweithgareddau gwerthuso a gwella a'r system atebolrwydd

Mae'r canllawiau gwella ysgolion drafft yn cynnig eglurder ynghylch pwy sy'n atebol ar bob lefel o'r system addysg. Mae'n pwysleisio y dylid ystyried atebolrwydd fel rhywbeth ar wahân, ond cysylltiedig, i weithgareddau gwerthuso a gwella.

Er bod gan awdurdodau lleol y grym i ymyrryd mewn 'ysgolion sy'n achosi pryder', mae'r canllawiau yn ei gwneud yn eglur y dylai cyrff llywodraethu, yn y mwyafrif o achosion, fel y corff atebol am eu hysgol, fod yn rhydd i oruchwylio'r broses gwerthuso a gwella, wedi'u cynorthwyo gan gyngor, adnoddau a gwasanaethau gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Er mwyn sicrhau bod atebolrwydd yn dal i fod yn gadarn, bydd ysgolion yn cael eu harolygu yn fwy rheolaidd gan Estyn. Bydd adroddiadau arolygu hefyd yn cynnwys naratif mwy esboniadol am berfformiad ysgolion, gan gynorthwyo gwaith cynllunio gwelliant ysgolion, heb gynnwys dyfarniadau crynodol.

Neilltuo yn eglur swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol gyrff mewn system hunanwella

Mewn system ysgolion hunanwella, mae'n bwysig bod y gwahanol gyrff – ysgolion a chyrrff llywodraethu, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn bennaf – yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau eu hunain, rhai pobl eraill, a'r berthynas rhyngddynt. Mae'r canllawiau yn nodi felly disgwyliadau Llywodraeth Cymru o swyddogaeth a chyfrifoldebau'r gwahanol gyrff, o ran gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, er mwyn helpu'r system hunanwella i weithredu yn effeithlon ac yn effeithiol